# Nos Iau, 08 Ionawr 2026 – 7.30yh
# Festri Salem, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 08 Ionawr 2026** am 7.30, Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Datganiad o Fuddiant
3. Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
4. Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
5. Trwsio giât yr eglwys
6. Diffibriliwr ar gyfer ardal Wybrnant
7. Diffibrilwyr mewn ardaloedd eraill: Glasgwm, Pen-y-Ffridd Llanerchigwynion
8. Hyfforddiant diffibriliwr
9. Cwyn ynghylch cyflwr eiddo ac ymddangosiad stryd – White Street
10. Dympio gwastraff cartref yn anghyfreithlon
11. Materion Ariannol
12. HSBC – terfyn taliad dyddiol
13. Trydan ar gyfer goleuadau Nadolig
14. Praesept
15. Er Gwybodaeth
16. Materion Brys

Minutes of a meeting held on **Thursday 08 January 2026** at 7.30, Salem Vestry, Penmachno

1. Welcome and Apologies for Absence
2. Declaration of Interest
3. Confirmation of the Minutes of the Previous Meeting
4. Matters Arising from Previous Minutes (not otherwise on the agenda)
5. Repairing the church gate
6. A defibrillator for the Wybrnant area
7. Defibrillators in other areas: Glasgwm, Pen-y-Ffridd Llanerchigwynion
8. Defibrillator training
9. Complaint regarding condition of property and appearance of street - White Street
10. Illegal dumping of household waste
11. Financial Matters
12. HSBC – daily payment limit
13. Electricity for Christmas lights
14. Precept
15. For Information
16. Urgent Matters

**Presennol**:
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Eifion Davies
Eryl Owain (Cadeirydd)
Geraint Thomas
Owen Davis
Wil Edwards

**Ymddiheuriadau**:
Bethan Corrigan
Claire Roberts
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

## Datganiad o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

## Derbyn cofnodion y cyfarfodydd diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd **13 Tachwedd 2025** fel rhai cywir. Dylan Davies yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio.

## Materion yn codi:

**Trwsio’r wal ym Mynwent Arwelfa**
Adroddwyd bod y gwaith i wal y fynwent bron wedi'i gwblhau.

**SP Energy:** Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y difrod i wal / cwlfert ger Parc Hill.

**Llwybrau Cyhoeddus**: Adroddwyd y bydd CNC yn gosod arwyddion a giât mochyn ar lwybr troed 49 cyn gynted ag y bydd y gwaith coedwigaeth wedi'i gwblhau.

**Toiled Cyhoeddus:** Penderfynwyd cael prisiau ar gyfer gosod ffan echdynnu.

**Bws Ysgol**: Adroddwyd bod plant yn dal i orfod sefyll ar y bws ysgol oherwydd diffyg seddi. Penderfynwyd ysgrifenni at Janet Finch-Saunders.

**Llifogydd - Trac Newydd, Carrog:** Adroddwyd bod y broblem yn parhau. Penderfynwyd cysylltu ag adran draenio tir y Cyngor Sir.

**Defnydd o White Street fel Cilffyrdd sydd ar agor i Unrhyw Draffig:** Adroddwyd bod yr Adran Ffyrdd yn ymchwilio i'r mater ac y byddant yn adrodd yn ôl.

**Present:**
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Deputy Chairperson)
Eifion Davies
Eryl Owain (Chairperson)
Geraint Thomas
Owen Davis
Wil Edwards

**Apologies:**
Bethan Corrigan
Claire Roberts
Dilwyn Roberts (County Councillor)

## Declaration of interest

There were no declarations

## Confirmation of the minutes

The minutes of the **13 November 2025** meeting was accepted as a true record, proposed by Dylan Davies and seconded by Geraint Thomas.

## Matters arising:

**Fixing the wall at Arwelfa Cemetery**
It was reported that the work to the wall is almost complete.

**SP Energy:** It was decided to report the damage to a wall / culvert near to Park Hill to the County Council.

**Public Footpaths:** It was reported that NRW will put up signs and a kissing gate on footpath 49 as soon as the forestry work is complete.

**Public Toilet**: It was decided to obtain prices for installing an extractor fan.

**School Bus:** It was reported that children are still having to stand on the school bus due to a lack of available seats. It was decided to write to Janet Finch-Saunders.

**Flooding - New Track, Carrog:** It was reported that the problem persists. It was decided to contact the County Council's land drainage department.

**The use of White Street as a Byway Open to All Traffic:** It was reported that the Highways Department is looking into the matter and will report back.

**Trwsio giât yr eglwys:** Adroddwyd bod un dyfynbris wedi dod i law. Penderfynwyd gofyn am ddyfynbrisiau gan gontractwyr eraill i'w cymharu â chysylltu ag yswirwyr y cyngor.

**Repairing the church gate:** It was reported that one quote had been received. It was decided to ask for quotes from other contractors for comparison and to contact the council's insurers.

**Diffibrilwyr – Ardal Wybrnant, Glasgwm a Phen-y-Ffridd Llanerchigwynion:** Adroddodd y Clerc fod y cyngor wedi cael cynnig diffibrilwyr yn rhad ac am ddim ac, oherwydd terfyn amser byr, ei fod wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer dau leoliad: un yn Nhŷ Coch, Wybrnant fel y trafodwyd yn y cyfarfod blaenorol ac un ar gyffordd Ffordd Ysbytty a Ffordd Groesffordd.

**Defibrillators – Wybrnant, Glasgwm and Pen-y-Ffridd Llanerchigwynion:** The Clerk reported that the council had been offered defibrillators free of charge and, due to a short application deadline, had submitted requests for two units: one at Tŷ Coch, Wybrnant as discussed at the previous meeting and one at the junction of Ysbytty Road and Groesffordd Road.

Penderfynwyd cefnogi gosod diffibriliwr ar Ffordd Ysbytty. Yn ystod y drafodaeth, awgrymwyd y gallai Glasgwm fod yn lleoliad mwy addas ar gyfer uned na'r safle a gynhigiwyd yn flaenorol yn Wybrnant.

Members resolved to support the installation of a defibrillator on Ysbytty Road. During discussion, it was suggested that Glasgwm valley might be a more suitable location for a unit than the previously proposed site at Wybrnant.

**Hyfforddiant diffibriliwr:** Nodwyd diddordeb ymhlith trigolion Cwm Penmachno. Bydd y cyngor yn casglu adborth ar ddyddiau ac amseroedd addas i drefnu sesiwn.

**Defibrillator training:** Interest was noted among Cwm Penmachno residents. The council will gather feedback on suitable days and times to arrange a session.

**Cwyn ynghylch cyflwr eiddo ac ymddangosiad stryd – White Street:** Adroddwyd bod cwyn wedi dod i law ynghylch cyflwr un o'r tai yn White Street. Nodwyd pryderon ynghylch tri cherbyd, dau feic modur a nifer o eitemau a oedd wedi'u storio ar hyd ochr wal capel Bethania, gan wneud i'r stryd edrych yn flêr. Cytunwyd i gyfeirio'r mater at y Cyngor Sir.

**Complaint regarding condition of property and appearance of street - White Street:** It was reported that a complaint had been received regarding the condition of one of the houses in White Street. Concerns were noted regarding three vehicles, two motorbikes and a number of items stored along the wall of Bethania chapel, making the street appear untidy. It was agreed to refer the matter to the County Council.

**Dympio gwastraff cartref yn anghyfreithlon:** Derbyniwyd sawl adroddiad am ddympio gwastraff cartref, gan gynnwys clytiau, yn y goedwig rhwng Ffordd Glasgwm a Ffordd Tŷ Coch. Nodwyd bod y sbwriel yn cynnwys dogfennau a oedd yn adnabod teulu lleol. Mae'r mater wedi'i adrodd i Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Heddlu.

**Illegal dumping of household waste:** Several reports had been received about the dumping of household waste, including nappies, in the forest between Glasgwm Road and Tŷ Coch Road. It was noted that the rubbish contained documents identifying a local family. The matter has been reported to NRW and the Police.

**Adroddiad Cyllidol**

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

**Financial Report**

The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis. It was agreed that everything was in order.

**HSBC – terfyn taliad dyddiol:** Penderfynwyd cynyddu'r terfyn taliad dyddiol o £3,000 i £10,000

**HSBC – daily payment limit:** It was decided to increase the daily payment limit from £3,000 to £10,000

**Trydan ar gyfer goleuadau Nadolig:** Adroddwyd bod trigolyn lleol wedi talu costau trydan ar gyfer goleuadau Nadolig Penmachno, cyfanswm o £12 eleni. Er nad

**Electricity for Christmas lights:** It was reported that a local resident had covered the electricity costs for the Penmachno Christmas lights, amounting to £12 for the season. Although no reimbursement had been

oeddent wedi gofyn am ad-daliad, cytunwyd y dylai'r Cyngor gynnig ad-dalu'r swm.

requested, it was agreed that the Council would offer to repay the amount.

**Praesept:** Nodwyd bod llawer o gostau wedi cynyddu eto megis atgyweiriadau i gyfleusterau, trydan ar gyfer y toiled cyhoeddus ac yswiriant. Penderfynwyd yn unfrydol i osod y praesept ar £20,000.

**Precept:** It was noted that many costs had increased again such as repairs to facilities, electricity for the public toilet and insurance. It was decided unanimously to set precept at £20,000.

## Er Gwybodaeth

**Baw Cŵn:** Adroddwyd bod problem gyda baw cŵn ym Mhenmachno wrth yr arhosfa bws, wrth y siop a thuag at y parc yn Ffordd Ty'n y Ddol.

**Coeden ym Mynwent Arwelfa:** Adroddwyd bod angen cwympo coeden yn y fynwent.

**Torri gwair yn y cae chwarae yng Nghwm Penmachno:** Adroddwyd bod pryderon wedi'u codi.

## For Information

**Dog Fouling**: It was reported that there is a problem with dog fouling in Penmachno at the bus stop, by the shop and towards the park in Ty'n y Ddol Road.

**Tree at Arwelfa Cemetery**: It was reported that a tree at the cemetery needs to be felled.

**Grass cutting at the playground in Cwm Penmachno**: It was reported that concerns had been raised.

## Materion Brys

Dim un

**Cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y cyngor nos Iau 12 Mawrth 2026, 7.30 yn festri Capel Salem.

## Urgent Matters

None

**Next meeting**

The next meeting of the council will be held on Thursday 12 March 2026, 7.30 at Capel Salem vestry.